Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan
# Heol Mynydd Garnllwyd
# Treforys
# Abertawe
# SA6 7QG

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan

Ysgol gyfun gymysg wirfoddol a gynorthwyir 11-18 oed yn Esgobaeth Menefia yw Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan. Mae'r ysgol yn gwasanaethu awdurdod lleol Abertawe ac ardaloedd cyfagos. Mae 1328 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 256 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgol gyfagos i ddarparu addysg chweched dosbarth.

Mae ychydig llai na 20% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 17% ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae tua 52% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan yr ysgol 16% o ddisgyblion ar ei chofrestr anghenion addysgol arbennig, sy'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd hefyd yn agos iawn at y cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, er bod lleiafrif ohonynt yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid oes bron unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith, neu i safon gyfatebol.

Dechreuodd y pennaeth dros dro presennol ar ei swydd ym mis Medi 2016, ond mae wedi gweithio yn yr ysgol er 2006, ac ymunodd â'r tîm arweinyddiaeth yn 2012. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth dros dro, dau ddirprwy bennaeth dros dro, dau bennaeth cynorthwyol, y mae un ohonynt yn bennaeth dros dro, a thri uwch arweinydd cysylltiol. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan ethos gofalgar a chynhwysol sydd wedi'i seilio'n gadarn ar werthoedd yr efengyl. Mae'n hynod lwyddiannus o ran datblygu gwerthoedd ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion, a'u synnwyr o gymuned. Mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr ar gyfer pob un o'r disgyblion, sy'n cael effaith gref ar eu lles, eu dysgu a'u datblygiad personol.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd, ond mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn cyflawni deilliannau priodol.

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu cynhwysol a chadarnhaol. Mewn llawer o achosion, mae disgwyliadau uchel athrawon yn treiddio trwy bob agwedd ar eu harfer yn yr ystafell ddosbarth, ac mae hyn yn ysbrydoli disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith a datblygu annibyniaeth a gwydnwch yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymrwymiad ar y cyd i gyflawni nodau ac uchelgeisiau'r ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safon medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm, a'u defnydd o'r Gymraeg

A2 Cryfhau trylwyredd hunanarfarnu a thra-chywiredd cynllunio gwelliant

A3 Darparu rheolaeth ariannol gadarn i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg ar y cyfan. Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd, ond mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni deilliannau priodol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwersi. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn dda, fel dealltwriaeth gref o achosion y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn datblygu'n briodol eu dealltwriaeth o egwyddorion a materion a drafodir mewn dysgeidiaeth grefyddol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando ar eu hathro ac ar ei gilydd â sylw a pharch. O bryd i'w gilydd, mae'r lleiafrif nad ydynt yn gwrando yn colli gwybodaeth a chyfarwyddiadau pwysig a fyddai'n helpu eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnig atebion perthnasol i gwestiynau athrawon, ac yn esbonio eu syniadau'n glir ar destunau, er enghraifft bod cariad Duw yn ddiamod, a natur a chwmpas maddeuant. Mae rhai ohonynt yn gofyn cwestiynau perthnasol i egluro'u dealltwriaeth cyn rhoi atebion datblygedig a meddylgar iawn ar lafar.

Mae llawer o ddisgyblion yn brasddarllen a llithrddarllen testunau llenyddol ac anllenyddol yn dda. Mae hyn, er enghraifft yn eu helpu i lunio esboniadau rhesymedig am safbwyntiau dyneiddwyr, esbonio dysgeidiaethau crefyddol am sancteiddrwydd bywyd, ac archwilio agweddau cymdeithasol am erthyliad ac ewthanasia. Mae tua hanner y disgyblion yn defnyddio rhesymu'n effeithiol i gefnogi eu dealltwriaeth o destunau llenyddol. Mae hyn yn cynnwys esbonio'r modd y mae swyddog yn 'Private Peaceful' gan Michael Morpurgo yn perswadio dynion i listio er gwaethaf erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf, a'r modd y mae John Steinbeck yn ffurfio teimladau'r darllenwyr tuag at gymeriadau yn 'Of Mice and Men'. Mae rhai disgyblion mwy abl yn gwneud defnydd soffistigedig o resymu a dod i gasgliad wrth ystyried y ffordd y mae Priestley yn creu tensiwn yn 'An Inspector Calls', y ffordd y mae Shakespeare yn cyflwyno casineb fel grym dinistriol yn 'Hamlet', a'r modd y mae Dylan Thomas ac Emyr Humphreys yn trafod eu diweddar dadau. Yn yr un modd, mae rhai disgyblion yn cyfosod a dadansoddi gwybodaeth a ddewiswyd o ffynonellau hanesyddol yn hyderus, er enghraifft wrth ystyried newidiadau i gymdeithas yn ystod y chwyldro diwydiannol a tharddiad, a'r cymhelliant, ar gyfer disgrifiadau o fywydau caethweision.

Mae llawer o ddisgyblion yn creu gwaith ysgrifennu sy'n dechnegol gadarn ac wedi'i drefnu'n briodol. Maent yn ysgrifennu mewn ystod o fformatau, gan gynnwys erthyglau papur newydd ar derfysgoedd Llundain, a llythyrau ffurfiol at y pennaeth yn rhannu safbwyntiau diddorol ar gyflwyno camerâu cylch cyfyng mewn ysgolion. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn llunio traethodau soffistigedig ac amleiriog sy'n ystyried pam mae Duw yn caniatáu dioddef, a natur a pherthnasedd maddeuant, gan gysylltu'r rhain yn effeithiol â digwyddiadau cyfoes. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau iaith priodol gan ddefnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc, fel 'militariaeth', 'imperialaeth' a 'chenedlaetholdeb' yn dda. Mae ychydig iawn ohonynt yn defnyddio geiriad trawiadol, er enghraifft wrth ddiffinio caethwasiaeth fel 'y syniad y gall un bod

dynol berchenogi un arall, a'i amddifadu o'i hawliau dynol'. Nid yw rhai disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n annibynnol yn ddigon da, ond mae hyn o bryd i'w gilydd am fod athrawon yn darparu gormod o gynhaliaeth i'w cynorthwyo pan nad oes ei hangen. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu. Mae'r camgymeriadau hyn yn cynnwys drysu amser y ferf a cholli rheolaeth yn gyffredinol trwy ddefnyddio coma yn amhriodol i uno cymalau, a defnyddio cymalau israddol yn hytrach na brawddegau llawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhifedd cymwys pan roddir cyfleoedd gwerth chweil iddynt mewn gwersi heblaw mathemateg. Maent yn trin data sylfaenol yn briodol, er enghraifft wrth greu graffiau i ddangos patrymau ymddygiad troseddwyr ifanc, dosbarthiad cyfoeth mewn cymdeithas ganoloesol a ffigurau recriwtio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus hefyd i ddatrys problemau heriol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio cliwiau rhifyddol i ddatrys dirgelwch llofruddiaeth. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn llai hyfedr ac yn llunio graffiau'n wael gydag echelinau heb eu labelu ac unedau coll.

Yn gyffredinol, nid yw medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Mae'r cyfleoedd prin a gaiff disgyblion yn cynnwys tasgau syml i ysgrifennu llythyrau gartref trwy ddefnyddio prosesydd geiriau, yn seiliedig ar 'Private Peaceful' a thasg ymchwil ar y Gemau Olympaidd.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn defnyddio eu medrau creadigol yn dda wrth adeiladu modelau o favela i ddangos eu dealltwriaeth o effeithiau tlodi ar amodau byw ym Mrasil. Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn dylunio gemau bwrdd yn seiliedig ar atyniadau twristaidd yng Nghymru, fel ran o Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Yn 2017, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion. Mae hyn yn cynnwys perfformiad ar drothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, lle bu gwelliant yn 2017 yn dilyn dirywiad sydyn yn y flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio hefyd yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg er iddo ostwng am yr ail flwyddyn yn olynol.

Yn 2017, perfformiodd bechgyn yn well na'r flwyddyn flaenorol yn hanner y dangosyddion. Er bod perfformiad merched wedi gostwng yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, mae bechgyn a merched yn y drefn honno wedi gwneud yn well na'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2017, mae perfformiad cyffredinol disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn debyg i'r hyn ydoedd yn 2016 ac mae'n well na pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion.

Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar eirfa gadarn, ond nid ydynt yn hyderus wrth siarad neu ysgrifennu Cymraeg. Lleiafrif o ddisgyblion yn unig sy'n ennill cymhwyster lefel 2.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau â'u haddysg yn yr ysgol hon neu mewn coleg.

Mae mwyafrif y disgyblion chweched dosbarth yn cyflawni safonau priodol o uchel yn eu gwaith. Dangosant frwdfrydedd, hyder a gwybodaeth bynciol tra datblygedig. Maent yn mynegi eu hunain yn glir ac yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn dda. Gwelwyd rhywfaint o welliant mewn perfformiad yn y chweched dosbarth yn 2017, ac mae'n parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg mewn hanner o'r dangosyddion. Ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys tair gradd Safon Uwch neu gyfwerth, gradd A*-A, wedi bod yn gadarn, ond mae perfformiad yn y dangosyddion cyfnod allweddol 5 eraill, yn enwedig y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach, wedi bod yn rhy amrywiol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn credu bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ystod y cymorth sydd ar gael iddynt yng nghymuned yr ysgol. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn darparu ystod eang o staff y gallant fynd atynt pan fydd unrhyw broblemau'n codi, er enghraifft yn y canolfannau 'Iechyd a Lles' ac 'Anelu' gwerthfawr.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n aeddfed at ddatblygu'r ysgol trwy'r cyngor ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cymryd rhan yn effeithiol ym mhenderfyniadau'r ysgol ar eu gwisg ysgol. Pan fydd cyfleoedd yn codi, mae disgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain yn frwdfrydig. Mae'r disgyblion hyn yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel llysgenhadon gwrthfwlio ac iaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, a dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn foesgar a chwrtais â staff, eu cyfoedion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae bron pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos ymrwymiad cryf, brwdfrydedd ac agwedd aeddfed tuag at eu hastudiaethau ac at gymuned yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn ymgymryd yn llawn â'u dysgu, ac mae eu hymddygiad yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd diet synhwyrol ac ymarfer corff. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd trwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol fel sesiynau chwaraeon lluosog.

Mae presenoldeb wedi bod ychydig yn is na'r disgwyl yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae presenoldeb rhai disgyblion â phresenoldeb gwael wedi gwella'n dda eleni o ganlyniad i waith y tîm cymorth bugeiliol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu cynhwysol a chadarnhaol sy'n cefnogi dealltwriaeth bynciol a datblygiad personol disgyblion yn dda. Defnyddiant eu gwybodaeth fanwl am anghenion a diddordebau disgyblion unigol i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau difyr ac ysgogol sy'n hyrwyddo cynnydd yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac fe gânt eu cynorthwyo gan adnoddau sydd wedi'u paratoi'n ofalus.

Mewn llawer o achosion, mae disgwyliadau uchel athrawon yn treiddio trwy bob agwedd ar eu harfer yn yr ystafell ddosbarth, ac mae hyn yn ysbrydoli disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith a datblygu annibyniaeth a gwydnwch yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r athrawon hyn yn datblygu medrau meddwl disgyblion yn effeithiol, ac maent yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o, a'u hempathi ag, ystod eang o syniadau a safbwyntiau, yn gryf. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion am eu cynnydd ac yn gosod tasgau iddynt sy'n eu galluogi i fyfyrio'n ystyriol ar eu dysgu a gwella'u gwaith.

Mewn rhai achosion, fodd bynnag, nid yw'r addysgu'n ddigon effeithiol yn gyson. Yn y gwersi hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. O ganlyniad, maent yn cynllunio gweithgareddau nad ydynt yn ddigon heriol ac mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion. Nid ydynt yn cynllunio amrywiaeth ddigonol o dasgau, a chaiff hyn effaith negyddol ar ymgysylltiad disgyblion. Yn benodol, maent yn dibynnu'n ormodol ar daflenni gwaith a llyfrynnau nad ydynt yn rhoi cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddatblygu ac ymestyn eu hatebion ysgrifenedig. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon bob amser yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da. Nid ydynt yn rhoi adborth digon clir i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith neu nid ydynt yn monitro'n ddigon agos pa mor dda y mae disgyblion wedi ymateb i'w harweiniad.

Mae'r ysgol yn cynllunio ac addasu ei chwricwlwm yn ofalus i sicrhau ei bod yn bodloni anghenion pob un o'r disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd, datblygiad personol a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i helpu disgyblion i drosglwyddo'n esmwyth i Flwyddyn 7. Mae disgyblion o ysgolion cynradd partner yn cymryd rhan mewn gweithgareddau pontio gwerthfawr o Flwyddyn 4 ymlaen. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu'r disgyblion hyn i ddatblygu ystod o fedrau sy'n cefnogi eu trosglwyddiad i'r ysgol uwchradd yn dda, fel datrys problemau a gweithio gydag eraill.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, gall disgyblion ddewis o blith ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Defnyddir partneriaethau â darparwyr eraill yn fuddiol i ymestyn y dewisiadau sydd ar gael yn y chweched dosbarth. Ceir trefniadau priodol i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd y partneriaethau hyn.

Mae addasu'r cwricwlwm i fodloni anghenion disgyblion sy'n agored i niwed yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r rhaglen 'Anelu' ('Aspire'), er enghraifft, yn darparu cymorth personoledig gwerthfawr ar gyfer disgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol. Mae'r ystod hon o ddarpariaeth yn llwyddiannus o ran sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol. Mae wedi'i threfnu a'i chydlynu'n dda, ac mae llawer o feysydd pwnc yn darparu ystod eang o gyfleoedd priodol ar gyfer disgyblion i wella'u medrau llythrennedd. Mewn rhai achosion, mae adrannau'n cynllunio ystod briodol o weithgareddau i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn dadansoddi data sy'n gysylltiedig â dosbarthiad cyfoeth yn yr oesoedd canol, newidiadau demograffig yn y chwyldro diwydiannol a chyfraddau recriwtio i'r fyddin yn ystod Y Rhyfel Mawr. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gormod o amrywiad yn ansawdd, lefel her ac addasrwydd tasgau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn nodi'n glir y disgyblion hynny sydd â medrau gwannach. Mae'n darparu

ymyriadau targedig ar gyfer y disgyblion hyn, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Ceir ystod effeithiol o ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol i gefnogi cyflawniad a lles disgyblion mwy abl. Caiff cysylltiadau â darparwyr eraill, fel y brifysgol leol, eu defnyddio'n dda i ddatblygu diddordebau a dyheadau'r disgyblion hyn. Er enghraifft, mae siaradwyr gwadd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu am ystod amrywiol o destunau, fel peirianneg genetig, cyfrifiadura a pholisi cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer disgyblion er mwyn iddynt ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, creadigol sydd ag ymwybyddiaeth o foeseg. Mae 'Diwrnodau dysgu yn seiliedig ar broblemau', er enghraifft yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl a chydweithredol. Mae gweithgareddau fel cynllun Gwobr Dug Caeredin yn datblygu medrau disgyblion i weithio mewn tîm ac arwain, ac mae ystod o brosiectau elusennol yn cefnogi empathi a dealltwriaeth disgyblion o faterion moesegol yn dda.

Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mewn ieithoedd tramor modern, er enghraifft, mae disgyblion yn cymharu diwylliannau Ffrainc, Sbaen a Chymru ac yn nodi pethau tebyg rhwng yr ieithoedd. Yn ychwanegol, mae'r 'Clwb Cymraeg' a digwyddiadau fel 'Cariadon Ciwt' i ddathlu Dydd Santes Dwynwen, yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru yn briodol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn briodol. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw lleiafrif o ddisgyblion wedi cwblhau cymhwyster Cymraeg lefel 2.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol allgyrsiol sy'n darparu'n llwyddiannus ar gyfer ystod eang o ddiddordebau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o glybiau, fel y clwb trafod a'r clwb darllen 'Book 'n' Brew', a theithiau i feysydd brwydro'r Rhyfel Byd Cyntaf, gorsaf radio leol, a 'Flame', sef cynulliad Catholig cenedlaethol i bobl ifanc. Mewn llawer o'r gweithgareddau hyn, mae disgyblion hŷn yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion iau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan ethos gofalgar a chynhwysol ac mae'n darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr ar gyfer disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les, dysgu a datblygiad personol disgyblion.

Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i nodi disgyblion sydd angen rhagor o gymorth, ac yn darparu ystod o ymyriadau defnyddiol.

Ceir trefniadau cryf ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion sy'n agored i niwed, yn enwedig y rheiny ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Mae staff yn y canolfannau 'Iechyd a Lles' ar y safle yn darparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio neu dangyflawni. Mae'r ysgol yn monitro ymddygiad pob disgybl yn agos, sy'n eu galluogi i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer unigolion. Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith ar gyfer olrhain a monitro presenoldeb ar draws yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, datblygiad cymdeithasol a phrofiadau dysgu'r disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag ystod o wasanaethau iechyd a chymorth ac asiantaethau allanol. Ceir systemau effeithiol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sydd angen cymorth, ac yn darparu ymyriadau buddiol ar eu cyfer. Mae cynlluniau addysg unigol a chynlluniau caffael iaith yn nodi strategaethau priodol sy'n helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd cryf.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, er enghraifft trwy ap sy'n eu hysbysu'n rheolaidd am ymddygiad a phresenoldeb eu plentyn. Mae adroddiadau gwerth chweil i rieni yn darparu gwybodaeth gwerthfawr am gryfderau eu plentyn a thargedau defnyddiol sy'n benodol i bwnc.

Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus o ran datblygu gwerthoedd ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion, sy'n hanfodol i bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae gwasanaethau ysgol gyfan, cyfnodau tiwtorial a siaradwyr gwadd yn gwella dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, yr ethos Catholig a'u synnwyr o gymuned.

Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i gynnwys disgyblion mewn penderfyniadau allweddol am fywyd ysgol. Mae'r grwpiau hyn wedi bod yn weithredol o ran dewis gwisg ysgol newydd wedi'i gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, cyflwyno mwy o ddewisiadau bwyta'n iach a chreu gardd dawel ar gyfer myfyrio. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd arwain gwerthfawr i ddisgyblion fod yn llysgenhadon myfyrwyr, mewn meysydd fel addysgu a dysgu, yr amgylchedd, litwrgi a gwasanaethau cymorth i gyfoedion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae'n helpu disgyblion i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, ac yn deall yr effaith a gaiff hyn ar eu lles. Ceir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr i gwmpasu meysydd allweddol iechyd, gan gynnwys alcohol, cyffuriau, ysmygu, cadw'n heini a diogelwch ar-lein. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am, a deall, rhagfarn a gwahaniaethu fel eu bod yn parchu amrywiaeth a hawliau pobl eraill.

Mae cyngor ac arweiniad priodol ar gael i ddisgyblion adeg cyfnodau pontio allweddol i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu dysgu a'u llwybrau gyrfa.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymrwymiad ar y cyd i gyflawni nodau ac uchelgeisiau'r ysgol. Caiff hyn effaith sylweddol ar les disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth feddylgar a sicr. Mae'n arddel a hyrwyddo gweledigaeth ac ethos yr ysgol yn gryf i ddarparu 'addysg gynhwysol a Christnogol ar gyfer pob un o'r disgyblion, yn unol ag egwyddorion a dysgeidiaeth y ffydd Gatholig'. Amlygir hyn gan y ffordd y caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd, yn ogystal ag ystod eang o faterion moesol a moesegol.

Caiff y pennaeth dros dro ei gynorthwyo'n dda gan dîm arweinyddiaeth estynedig. Gyda'i gilydd, mae'r tîm hwn yn hyrwyddo synnwyr ar y cyd o ddiben ac ymrwymiad i werthoedd ac uchelgeisiau'r ysgol. Caiff cyfrifoldebau arwain eu dirprwyo'n effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at gefnogi datblygiad proffesiynol staff ac at fynd i'r afael â blaenoriaethau penodol, fel cryfhau medrau llythrennedd disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae uwch arweinwyr yn hyrwyddo disgwyliadau uchel. Caiff y rhain eu cyfleu'n glir, er enghraifft trwy swydd-ddisgrifiadau personoledig, polisïau addysgiadol, bwletinau wythnosol a chyfarfodydd tîm ar bob lefel.

Mae cyfarfodydd a briffiau yn ffyrdd effeithiol o rannu gwybodaeth, gan sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n effeithlon o ddydd i ddydd, a monitro perfformiad a lles disgyblion yn rheolaidd. Ceir trefniadau rheoli llinell sydd wedi'u diffinio'n dda. Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn canolbwyntio'n bennaf ar addysgu a dysgu, sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth, a chynnydd a lles grwpiau penodol o ddisgyblion. Caiff camau gweithredu eu nodi'n glir, ac eir i'r afael â chynnydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn cyfrannu'n dda at wella deilliannau mewn llawer o ddangosyddion perfformiad allweddol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a goruchwylio gwaith yr ysgol yn briodol. Yn gyffredinol, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae rhai ohonynt yn cynnig her drylwyr ac adeiladol i'r ysgol am agweddau penodol ar ei gwaith a'i pherfformiad.

Mae gan yr ysgol ystod sefydledig o brosesau sicrhau ansawdd ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn helpu nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ansawdd y ddarpariaeth ac effaith yr arweinyddiaeth. Gwerthusiad manwl a chyffredinol arfarnol o waith yr ysgol yw'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r dadansoddiad o'r rhan fwyaf o ddata perfformiad yn fanwl, ond ni roddir ystyriaeth ddigon da i rai agweddau arno, er enghraifft y pynciau di-graidd yng nghyfnod allweddol 4. Yn ychwanegol, nid yw'r arfarniad o safonau a chynnydd disgyblion mewn llyfrau a gwersi yn canolbwyntio'n ddigon eglur ar ddatblygu eu medrau. Mae cynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n agos â chanfyddiadau hunanarfarnu ac yn amlinellu blaenoriaethau'r ysgol yn glir. Mae'n amlinellu targedau, camau gweithredu bras ac adnoddau'n briodol. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser yn ddigon manwl gywir.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr bugeiliol ac arweinwyr y cwricwlwm yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn dda yn eu maes cyfrifoldeb. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r dadansoddiadau hyn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir. Mae cynlluniau gwella arweinwyr canol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau strategol yr ysgol.

Mae amcanion rheoli perfformiad yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r ysgol, ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar godi safonau. Mae'r dull hwn yn helpu cefnogi dysgu proffesiynol unigol yn ogystal â darparu ffordd effeithiol o ddwyn staff i gyfrif am ansawdd eu gwaith. Er bod llawer o arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau'n effeithiol, mae rhai meysydd o waith yr ysgol lle nad ydynt yn cael digon o effaith, fel nodi'n fanwl gywir yr agweddau ar addysgu y mae angen eu gwella ymhellach o hyd.

Mae gan yr ysgol ystod gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol i bob un o'r staff ddatblygu eu harbenigedd a'u medrau.  Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio mewn gweithgarwch yn seiliedig ar dystiolaeth mewn grwpiau dysgu proffesiynol a thriadau hyfforddi, a rhannu arfer dda mewn ysgolion lleol, ac ar eu traws.  Yn ychwanegol, mae rhai athrawon yn elwa ar ymholi gwerth chweil yn yr ysgol sy'n cael ei gynorthwyo gan sefydliad addysg uwch lleol.  Mae'r ysgol hefyd yn cyfrannu at raglen werthfawr ar gyfer arweinwyr canol a gydlynir gan y consortiwm rhanbarthol, ac mae staff yn elwa arni.  Mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn, sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella arfer mewn addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i staff yn briodol.  Mae'n defnyddio'r adeiladau a'r adnoddau sydd ar gael yn llwyddiannus i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol.  Er bod diffyg yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd, mae wedi rhoi cynllun adfer trylwyr ar waith sydd wedi cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.  Caiff yr holl wariant ei fonitro'n ofalus a'i ddyrannu'n briodol bellach yn unol â blaenoriaethau cytûn.  O ganlyniad, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas i leihau ei diffyg.

Defnyddir y Grant Datblygu Disgyblion yn eithriadol o effeithiol i gryfhau darpariaeth, er enghraifft trwy 'Anelu' ('Aspire'), sy'n darparu ymyrraeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd mewn amgylchedd meithringar. Mae'r dull hwn yn cyfrannu'n dda at wella deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2018